**John Griffiths AC / AM**
**Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol, Diwylliant a Chwaraeon**
**Minister for Natural Resources, Culture and Sport**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-04-547
Ein cyf/Our ref JG/00826/14

William Powell AC
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

17 Gorffennaf 2014

Annwyl William,

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 30 Mai ynglŷn â'r ddeiseb oddi wrth Gyfeillion Traethau'r Barri yn gofyn am waharddiad ar ddeunydd pacio polystyren ar gyfer bwyd a diod cyflym.

Mae sbwriel o bob math yn broblem y mae Llywodraeth Cymru yn ei chymryd o ddifrif ac yn un y mae'n benderfynol o fynd i'r afael â hi. Rydym yn gweithio gydag amryw o bartneriaid i newid agweddau ac ymddygiad y cyhoedd o ran taflu sbwriel, gan wneud hynny drwy addysg, drwy weithio mewn partneriaeth a thrwy raglenni gorfodi. Mae llawer o'r mentrau a'r rhaglenni hynny yn rhai sy'n cael eu cefnogi a'u hyrwyddo gan y siopau cadwyn a'r busnesau bwyd brys eu hunain. Ein nod yw atal sbwriel yn y lle cyntaf.

Mae Llywodraeth Cymru yn rhoi arian i'r awdurdodau lleol ac i Cadw Cymru'n Daclus bob blwyddyn i'w helpu i gynnal gweithgareddau i annog cymunedau i fod yn rhan o'n rhaglen *Trefi Taclus*. Nod y rhaglen honno yw grymuso pobl Cymru i ysgwyddo'r cyfrifoldeb dros eu hamgylchedd lleol eu hunain. Mae'n mynd i'r afael â sbwriel drwy addysg a thrwy brosiectau penodol sydd â'r nod o newid ymddygiad y bobl hynny sy'n taflu sbwriel. Rydym yn rhoi arian ychwanegol i Cadw Cymru'n Daclus (CCD) er mwyn i'r corff hwnnw gynnal ymgyrchoedd i fynd i'r afael â phob math o sbwriel ac i annog pobl Cymru i daflu eu sbwriel i'r bin, yn hytrach nag i'r stryd neu ei daflu o'u cerbydau.

Mae'r cyllid a roddwn i CCD yn cael ei ddefnyddio hefyd i gynnal arolygon blynyddol o dan y System Reoli ar gyfer Archwilio'r Amgylchedd Lleol (LEAMS), sy'n asesu pa mor lân yw strydoedd Cymru. Yn ôl y canlyniadau diweddaraf, roedd canran uwch o strydoedd heb unrhyw sbwriel o gwbl yn 2013-14, a llai o strydoedd lle gwelwyd llawer iawn o sbwriel.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Correspondence.Alun.Davies@wales.gsi.gov.uk

*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)*
*Printed on 100% recycled paper*

Roedd y cofnodion yn dangos hefyd fod llai o wastraff bwyd brys, ac mai hwnnw, o blith y pedwar math o sbwriel a gofnodwyd, oedd yr un a welwyd leiaf. Y tri math arall yw sbwriel sy'n gysylltiedig ag ysmygu, melysfwyd a diodydd.

Mae Llywodraeth Cymru yn rhoi cyllid ychwanegol i CCD yn 2014-15 i gynnal cynllun peilot 'Gofal Arfordir'. Bydd y cynllun peilot hwnnw'n casglu gwybodaeth am daflu sbwriel ar yr arfordir yng Nghymru ac yn profi ymyriadau arloesol i fynd i'r afael â'r broblem. Bydd swyddogion Gofal Arfordir yn gweithio gyda grwpiau cymunedol hefyd i ymchwilio i brosiectau posibl i wella'r sefyllfa o ran sbwriel ar yr arfordir, a bydd yn hyrwyddo arferion da o ran rheoli traethau yng Nghymru drwy helpu traethau i ennill mwy o Wobrau'r Faner Las, Gwobrau'r Arfordir Glas a'r Gwobrau Glan Môr.

Rwyf hefyd wedi comisiynu CCD i baratoi papur ymchwil a fydd yn ymdrin yn benodol â sbwriel polystyren ac â'i effaith ar yr amgylchedd. Bydd hefyd yn cyflwyno argymhellion ynglŷn ag ymyriadau yn y dyfodol. Bydd y papur hwnnw, a chanfyddiadau'r cynllun peilot, yn cael eu gwerthuso er mwyn penderfynu ar gamau ymarferol pellach.

Mae Llywodraeth Cymru yn mynd ar drywydd amryw o ymyriadau i helpu i leihau gwastraff deunydd pacio, ac ailgylchu mwy. Mae lleihau gwastraff bwyd a'r gwastraff deunydd pacio sy'n gysylltiedig ag ef yn un o'r prif amcanion yn y ddogfen Tuag at Ddyfodol Diwastraff, sef y strategaeth wastraff gyffredinol i Gymru. Mae Cytundeb Gwirfoddol, sef y Cytundeb Gwasanaethau Lletygarwch a Bwyd, wedi'i sefydlu ar lefel y DU, ac mae'n cynnwys bwytai a siopau bwyd brys. Mae'n cynnwys targedau y cytunwyd arnynt gan y diwydiant, a chymorth iddynt leihau ac ailgylchu eu gwastraff. Mae hefyd yn rhoi cymorth iddynt ddefnyddio deunyddiau pacio sydd, drwy gydol eu hoes ac unwaith y byddant wedi troi'n wastraff, yn cael cyn lleied o effaith ag y bo modd ar yr amgylchedd ond sydd, ar yr un pryd, yn cadw'r bwyd sydd ynddynt yn ddiogel. Mae'r Cytundeb hwn yn cael ei drefnu gan Raglen Weithredu'r Cynllun Gwastraff ac Adnoddau (WRAP), ac mae'n cael ei chefnogi a'i chyllido gan Lywodraeth Cymru a gweinyddiaethau eraill y DU. Mae dau gant o fusnesau lletygarwch yn y DU wedi llofnodi'r cytundeb, gan gynnwys 28 o fusnesau yng Nghymru. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi rhoi cyllid i WRAP weithio gyda manwerthwyr a'u cyflenwyr i ddefnyddio deunyddiau pecynnu bwyd yn y ffordd orau bosibl, a hefyd i reoli cronfa i ddarparu seilwaith a fydd yn galluogi pobl i ailgylchu i ffwrdd o'r cartref.

Mae Rheoliadau Deunydd Pacio (Gofynion Hanfodol) yn rhoi cyfrifoldeb ar y rheini sy'n pacio neu'n llenwi cynhyrchion i fodloni gofynion penodol. Mae'r gofynion hynny'n cynnwys defnyddio cyn lleied o ddeunydd pacio â phosibl fel y bo modd ei ailgylchu neu ei adfer. Adrannau safonau masnach yr awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am orfodi'r Rheoliadau hynny yn eu hardaloedd.

Nid oes fawr ddim tystiolaeth bod polystyren yn rhan fawr o'r ffrwd wastraff deunydd pacio. Ychydig yn unig o'r cadwyni bwyd brys mawr sy'n defnyddio polystyren, ac mae'n cael ei weld mwy mewn siopau bwyd brys annibynnol. O'r herwydd, mae angen mynd i'r afael â'r broblem ar y lefel leol, ac mae deddfwriaeth yn ei lle sy'n caniatáu i'r awdurdodau lleol wneud hynny.

Mae dyletswydd statudol ar awdurdodau lleol yng Nghymru i sicrhau nad oes sbwriel ar briffyrdd, troedffyrdd cyhoeddus a mannau hamdden, a nhw hefyd sy'n gyfrifol am orfodi hynny. Mae Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 a Deddf Cymdogaethau Glân a'r Amgylchedd 2005 yn rhoi amryw o bwerau iddynt ddelio â phobl sydd wedi cyflawni trosedd amgylcheddol. Yn eu plith mae pwerau i roi Hysbysiadau Cosb Benodedig, sy'n amrywio o £75 i £150, i bobl sy'n cael eu dal yn taflu sbwriel.

O dan adrannau 93 a 94 o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990, mae'r awdurdodau lleol yn gallu cyflwyno hysbysiadau Rheoli Sbwriel ar y Stryd sy'n ei gwneud yn ofynnol i fusnesau, fel siopau bwyd brys, glirio unrhyw sbwriel yng nghyffiniau eu hadeiladau (o fewn 100 metr) a achoswyd gan eu gweithgareddau. Os nad yw'r busnesau hynny'n cydymffurfio â'r hysbysiadau hynny, caiff yr awdurdodau lleol roi Hysbysiadau Cosb Benodedig.

Gallaf eich sicrhau bod hwn yn fater y mae Llywodraeth Cymru yn ei gymryd o ddifrif. Rydym yn mynd i'r afael ag ef drwy gyfrwng amryw o ymyriadau ac fel y nodwyd uchod, mae deddfwriaeth yn ei lle ar hyn o bryd i fynd i'r afael â sbwriel.

Yn gywir,

**John Griffiths AC / AM**
Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol, Diwylliant a Chwaraeon
Minister for Natural Resources, Culture and Sport